# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

## RHAN 5

DARPARIAETH ATODOL YNGHYLCH ADEILADAU O DDIDDORDEB ARBENNIG AC ARDALOEDD CADWRAETH

## PENNOD 4

CYFFREDINOL

PROSPECTIVE

*Y Goron*

### 188 Cynrychiolaeth buddiannau'r Goron a buddiannau'r Ddugiaeth mewn tir

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i unrhyw beth y mae'n ofynnol ei wneud neu sydd wedi ei awdurdodi i'w wneud at ddibenion Rhan 3, Rhan 4 neu'r Rhan hon gan berchennog ar fuddiant mewn tir (gan gynnwys buddiant fel meddiannydd ar y tir yn unig) neu mewn perthynas â pherchennog o'r fath.

(2) I'r graddau y mae'r buddiant yn fuddiant y Goron neu fuddiant y Ddugiaeth, rhaid i'r peth gael ei wneud gan awdurdod priodol y Goron neu mewn perthynas â'r awdurdod hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 188 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

***Statws*** *Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Croes Bennawd: Y Goron yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

## 189 Cyflwyno dogfennau i'r Goron

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo cyflwyno hysbysiad neu ddogfen arall i'r Goron yn ofynnol neu wedi ei awdurdodi o dan neu yn rhinwedd Rhan 3, Rhan 4 neu'r Rhan hon.

(2) Rhaid cyflwyno'r ddogfen i awdurdod priodol y Goron.

(3) Nid yw adrannau 205 a 206 (darpariaethau cyffredinol ynghylch dulliau cyflwyno) yn gymwys i gyflwyno'r ddogfen.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 189 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

## 190 Camau gorfodi mewn perthynas â thir y Goron

(1) Ni chaiff awdurdod cynllunio gymryd cam gorfodi perthnasol mewn perthynas â thir y Goron heb gytundeb awdurdod priodol y Goron.

(2) Caiff awdurdod priodol y Goron roi cytundeb yn ddarostyngedig i amodau.

(3) Yn yr adran hon ystyr "cam gorfodi perthnasol" yw unrhyw beth a wneir mewn cysylltiad â gorfodi gofyniad neu waharddiad a osodir gan neu o dan Ran 3, Rhan 4 neu'r Rhan hon.

(4) Mae'n cynnwys—
- (a) mynd ar dir, a
- (b) dwyn achos neu wneud cais.

(5) Ond nid yw'n cynnwys—
- (a) dyroddi neu gyflwyno hysbysiad (er enghraifft hysbysiad gorfodi neu hysbysiad stop dros dro), neu
- (b) gwneud gorchymyn (er enghraifft gorchymyn o dan adran 107 neu 115).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 190 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Croes Bennawd: Y Goron yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 11(3) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(2)
- s. 58(4)(c) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(3)
- s. 88(4) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(4)
- s. 118(2)(f) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(5)
- s. 161(6) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(6)